

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 11eg Ionawr 2022

Croeso ac Ymddiheuriad - Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd, Emma Chappell a gair o weddi gan Richard Ll. Jones

Presennol - Cadeirydd Emma Chappell ynghyd a'r Cynghorwyr, Elfed Wyn Williams, R Hefin Williams, Richard Ll Jones, Ynyr Parri, a Jane Pierce. Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

Ymddiheuriadau - Lowri Hughes, Idris Thomas, Dawn Parry, Sasha Williams, Phyllis Ellis, Rhian Evans-Hill, Ceri Jones a Gareth Griffiths.

Datgan Buddiant - Dim

Cofnodion 7fed Rhagfyr 2021

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Elfed Wyn Williams (1)

Richard Ll. Jones (2)

Materion o'r Cofnodion

Cynllunio - Derbyniwyd ymateb i'n cwyn at yr adran, am ddiffyg derbyn ceisiadau cynllunio. Yn dilyn eglurhad, a bod problem gyda gosodiadau, ond gobeithio fod hyn wedi eu datrys.

Neuadd Bentref Rhiwlas - Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau fod cofrestru Tir wedi derbyn y cais i gofrestru'r Neuadd.

Giât Drydan Llwybr Rhif 22 - O'r diwedd, cafwyd cadarnhad nad oes hawl gan berchennog i osod giât o'r fath ar lwybrau cyhoeddus. Felly, bydd y Cyngor Sir yn mynd ati i drafod gyda'r perchennog iddo waredu'r rhwystr dan sylw.

Gwelliannau I Lwybrau Cyhoeddus - O'r diwedd mae'r adran wedi ymateb i gais y Cyngor Cymuned I edrych a symud ymlaen gyda'r llwybrau dan sylw. Gobeithio y bydd mwy o wybodaeth ar gyfer trafodaethau yn cyrraedd erbyn canol Ionawr er mwyn i ni drafod y ffordd ymlaen.

Caead Cwter yn ben allt Cefn y Waun - Cafwyd neges fod caead cwter wedi disgyn i mewn i'r gwter ac roedd yn pery pryder diogelwch yn yr ardal yma. Bu i'r clerc gysylltu yn syth gyda'r Cyngor min nos. Diolch i'r tîm Cyngor sir a aeth allan i ddiogelu'r safle'r noson honno, ynghyd a gyrru criw i'w drwsio'r bore canlynol.

Cyfyngiadau 30 M.Y.A. gan drigolion ardal Raca / Penisa'r-waun - Yn anffodus, rydym dal yn disgwyl am y Cyngor Sir ynglŷn â hyn. Mae'r Cynghorydd Elwyn Jones mewn cyswllt bob mis, ond nid oes swyddog ar gael i ganiatáu ymgynghoriad.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Dim

Cynllunio

Dim

Trafod Llythyr ar Gyfarfodydd Treftadaeth y Byd

Mae pryder fod y statws yma yn creu rhywfaint o bryder. Os nad ydi llais pobl leol gwybodus o'r gwir hanes rhyfeddol yma am y Chwarel o ochor Dinorwig yn cael ei gynnwys yn y cyfarfodydd, yna tybed os ydi'r gwir hanes yn mynd i gael eu colli, gan nad oes llais y gymuned yn mynd i fod ar y bwrdd llywio. Tybed os ydi'n ffaith nad ydynt wedi gweld dim pellach na thwristiaeth? Y clercc i holi ein cynrychiolydd ar yr is bwyllgor.

Cysgodfa'n Bws Brynrefail

Bu i'r clercc gysylltu am amcan bris gan y cwmni a awgrymwyd iddynt gan y Cyngor Sir. Ond, roedd y pris rhataf oeddynt yn gallu eu cynnig am gysgodfa'n bws dros £6000. Mae 2 amcan bris i gael gan gwmni arall o Nottingham, a hefyd mae un o'r cynghorwyr am drafod i gael mwy o wybodaeth am rhai pren fel yn Felinheli.

Cyllideb

Cyflwynodd y Clercc Gyllideb am y flwyddyn 2022/2023. Cafwyd sgwrs nad ydym wedi gorfod talu am halen ers tua 3 blynedd, gan nad yw'r tywydd wedi bod yn ddrwg. Serch hynny, bydd rhaid clustnodi swm o ran biniau Newydd ayyb. Fel arall, penderfynwyd yn gytûn fod y gyllideb yn edrych yn iawn am 2022/2023. Mae ffurflen cais am praesept o 31,800 ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi ei gyrru.

O Gwmpas y Bwrdd

Goleuadau Stesion Pentir

Sawl un wedi sylwi fod y goleuadau yn llachar ac nid yn unig hynny ond eu bod yn adlewyrchu i fyny yn ogystal ag i lawr. Mae'r golau ymlaen yn barhaus yn ystod y nos, tybed oes wir angen hyn, neu gallwn leihau llygredd - cysylltu gydag adran Amgylchedd y Cyngor Sir.

Groesfordd Tre Gof, Bethel

Mae yna arwydd Plant ac Ysgol ar y lon wrth fynd i fyny am y Neuadd, ond yn amlwg mae rhywbeth wedi ei daro ac mae'r polyn wedi plygu. Tybed oes modd cael un yn ei le neu atgyweirio.

Cadarnhau Taliadau